Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Mae Cymru Masnach Deg yn chwilio am Gadeirydd sydd yn gallu defnyddio eu sgiliau i arwain ein cyfeiriad strategol, arwain ein Bwrdd, cefnogi staff, a hyrwyddo Masnach Deg yng Nghymru.**

Ein cenhadaeth ydy ysgogi mudiad Masnach Deg llwyddiannus a chynhwysol yng Nghymru, trwy ddatblygu cymunedau, siapio polisi, a chreu cysylltiadau byd-eang sy'n cefnogi masnach foesegol a chynaliadwy. Mae gennym strategaeth newydd uchelgeisiol ar gyfer 2025-2028, sy'n cynnwys ein cynlluniau i dyfu – sydd yn dechrau gyda'n cyfnod presennol o drawsnewid o fod yn sefydliad nid-er-elw i fod yn elusen gofrestredig.

Os oes ots gennych chi am gyfiawnder a chydraddoldeb byd-eang, ac eisiau cefnogi twf y mudiad Masnach Deg, mae'r rôl hon yn caniatáu i chi siapio cyfeiriad Cymru Masnach Deg a chryfhau cysylltiadau ar draws Cymru ac ymhellach. Dewch i ymuno â ni ar gyfer ein pennod nesaf.

Mae Cymru Masnach Deg wedi'i sefydlu fel cwmni, wedi'i gyfyngu drwy warant gyda statws nid-er-elw., sydd ar hyn o bryd, yn gwneud cais am statws elusennol. Rydym yn gweithio fel rhan o bartneriaeth Hub Cymru Africa (HCA). Ar hyn o bryd, mae Hub Cymru Africa yn cael ei ariannu gan raglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru.

## Sut i wneud cais

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol, yn esbonio pam rydych chi eisiau dod yn Gadeirydd Bwrdd Cymru Masnach Deg i aileen@fairtradewales.org.uk.

Dyddiad Cau: 24 Chwefror 2026.

Cyfweliadau: 4/5 Mawrth 2026

## Manylion

- Ymrwymiad amser: tua ½ diwrnod y mis
- Tua phedwar cyfarfod Bwrdd y flwyddyn
- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd gyda Phennaeth Cymru Masnach Deg

- Gwobr: Rôl wirfoddol gyda threuliau rhesymol a hyfforddiant yn cael eu talu
- Tymor: 3 blynedd (gyda phosibiliad o ragor o dermau)
- Lleoliad: Ar-lein gydag un diwrnod i ffwrdd mewn person y flwyddyn

## Disgrifiad o'r Rôl

Mae rôl y Cadeirydd yn cynnwys arwain y Bwrdd, sicrhau ei fod yn effeithiol o ran gosod diwylliant a chyfeiriad y sefydliad, a chynnal safonau uchel o lywodraethiant. Mae'r Cadeirydd hefyd yn rheoli Pennaeth y tîm staff i gyflawni'r strategaeth, cynlluniau gwaith a'r amcanion. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn rhannu'r un cyfrifoldebau cyfreithiol ag aelodau eraill y Bwrdd.

### Cyfrifoldebau

- Arwain y Bwrdd i osod a hyrwyddo cyfeiriad strategol Cymru Masnach Deg, a sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei lywodraethu'n dda, a dwyn staff i gyfrif.
- Cadeirio cyfarfodydd Bwrdd (tua 4 y flwyddyn), a sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol, bod cyfarfodydd yn cael eu harwain yn gynhwysol, a bod y Bwrdd yn cyflawni ei ddyletswyddau.
- Gweithredu fel rheolwr llinell ar gyfer Pennaeth Cymry Masnach Deg, gan gynnwys gosod amcanion, a chyfarfodydd un i un rheolaidd i gefnogi a monitro cynnydd.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn adolygu ei strwythur, effeithiolrwydd, dirprwyiaethau a pholisïau allweddol, a'i fod yn gweithredu newidiadau y cytunwyd arnynt ôl yr angen.
- Cynrychioli Cymru Masnach Deg i benderfynwyr, sefydliadau partner a'r cyhoedd, gan weithredu fel llysgennad.

### Perthnasoedd allweddol

- Aelodau eraill o Fwrdd Cymru Masnach Deg
- Pennaeth Cymru Masnach Deg ac aelodau eraill o staff
- Cadeirydd a Phennaeth Hub Cymru Africa
- Cyllidwyr a phartneriaid presennol a phosib

## Manyleb Person

### Hanfodol

- Ymrwymiad i egwyddorion Masnach Deg a chyfrifoldeb byd-eang
- Dealltwriaeth o'r sector gwirfoddol a'r materion presennol sy'n effeithio arno
- Y gallu i feithrin a hyrwyddo amgylchedd cydweithredol
- Y gallu i ysgogi staff a chynghorwyr y Bwrdd
- Profiad o gadeirio neu hwyluso
- Y gallu i wrando, ymgysylltu'n effeithiol a chreu perthnasoedd
- Dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng arweinyddiaeth strategol a gweithredol

### Dymunol

- Y gallu i siarad Cymraeg
- Profiad o weithio gyda, neu fel rhan, o Fwrdd neu fath arall o arweinyddiaeth strategol
- Dealltwriaeth o gyfyngiadau sefydliad bach o ran adnoddau
- Ymwybyddiaeth o lywodraethu elusen/nid-er-elw
- Dealltwriaeth eang o faterion cyllid a chyllido elusen
- Profiad o weithio gyda'r Llywodraeth, y Senedd a chymdeithas sifil yng Nghymru